

# Gair bach Bethlehem 21



www.bethlehem.cymru

(trydar) @GweBethlehem

**Gwaelod-y-garth**

Cyfnod y 'Covid-19' – rhif 21 (Canol mis Hydref) 2020

(Arbedwch inc a phapur! Peidiwch ag argraffu hwn – dim ond ei ddarllen ar-lein.)



Un o'r golygfeydd yn stori'r dilyw - Noa yn casglu'r anifeiliaid i'r arch.  
Rhan o oedfa Ddiolchgarwch ar-lein yr Ysgol Sul

## TORRI TIR NEWYDD ETO

Bu sawl datblygiad yn hanes Bethlehem dros gyfnod y Covid-19. Y diweddaraf oedd yr oedfa ar-lein dan arweiniad yr Ysgol Sul i ddathlu Gŵyl y Diolchgarwch ar Hydref 11. Mae'r hanes yn llawn ar dudalen 3, ynghyd â lluniau.

Y bonws ychwanegol oedd y

perfformiad gan bypedau teulu hynod greadigol yr Evansiaid yn eu "Theatr Fach" yn yr Eglwys Newydd! Os nad ydych wedi cael cyfle i weld y cyfan, yna ewch yn ôl at yr oedfa a'r cyflwyniad. Mae i'w gael o hyd ar 'Youtube': [https://youtu.be/BA\\_eDVznjzM](https://youtu.be/BA_eDVznjzM).



Delwyn yn gweinyddu'r cymun.



Rhan o'r gynulleidfa yn ystod yr oedfa gymun.

Y Sul blaenorol, Hydref 4<sup>ydd</sup>, cynhaliwyd yr oedfa Gymun gyntaf ers i'r cyfyngiadau ddod i rym. Gwahoddwyd y gynulleidfa i ddod â thoc bach o fara neu fisged i'w canlyn, ynghyd â llymaid o hylif i'w yfed. Felly ni welwyd y 'bwrdd cymun' arferol na 'rhannu'r elfennau' o gwmpas y seddau. Cadwyd at yr holl reolau eraill sydd mewn grym o ran mynediad i'r adeilad a chadw pellter cymdeithasol. Mae'r oedfa honno hefyd yn parhau ar 'Youtube': <https://youtu.be/wFY3dgMY8LU>

**Oedfa nesaf Bethlehem:**

***Y Parchedig Glyn Tudwal Jones***

**10.30, Bore Sul, Hydref 18**

**(Dewch â'ch masg a rhowch wybod i Rhodri eich bod am fynychu!)**

[rhodrigj@btinternet.com](mailto:rhodrigj@btinternet.com)

# YR YSGOL SUL YN PARHAU I GWRDD AR LEIN

Dros yr wythnosau nesaf bydd rhieni plant yr Ysgol Sul yn cymryd eu tro i arwain y sesiynau rhithiol ar Zoom, ac y mae yna bob amser groeso i unrhyw un ymuno ar fore Sul am 10.30. Cliciwch ar y linc isod:

<https://us02web.zoom.us/j/71466343537?pwd=M2Nia2F3YWU3ZmJDZWNUdDd3M3ZCUT09>  
neu ewch i mewn i Zoom gan ddefnyddio'r rhif adnabod **714 6634 3537** a'r cyfrinair **Bethlehem**.



Tro Leah Owen-Griffiths oedd hi i arwain ar 4 Hydref ac fe ddaeth llond sgrin o blant i wrando a chymryd rhan. Cychwynnodd Leah trwy ddangos ac adrodd stori Arch Noa.

Roedd Leah wedi gofyn i'r plant feddwl am rhywbeth bydden nhw mynd gyda nhw ar yr arch, ac yr oedd yr ymatebion yn ddi-ddorol iawn.

Lluniau o'r teulu oedd dewis Alys ac Anni a thegan meddal na fyddent yn gallu byw hebdo oedd dewis Anna, Nanw, Awen, Gruff a Sara. Roedd Mabon ac Eli yn benderfynol y byddai eu cathod (Bob a Myffin) yn cael dod gyda nhw ar yr arch tra bod Luned yn credu y byddai'r anifeiliaid yn swnllyd ac felly am fynd ag ear-plugs gyda hi!

Er y byddai Ifan a Mabon yn hoffi mynd â'u ffonau symudol gyda nhw, roedden nhw'n amau a fyddai digon o signal ar yr arch, felly llyfr nodiadau enfawr a phensiliau oedd dewis Ifan er mwyn cofnodi'r digwyddiad.

Llyfrau oedd dewis Elis (llyfr Pokemon) a Steffan (casgliad o gardiau pêl-droed) a theganau bach Superzings oedd dewis Trystan. Roedd rhaid i Tomos fynd a'i Lego gyda fe i'r arch a blwch bach arbennig yn chwarae miwsig oedd dewis Enfys. Doedd Mabli ddim am adael ei ffidil ar ôl, a'i ukelele newydd oedd yn angenrheidiol ar gyfer taith Olwen ar Arch Noa.

Bathodynau pwysig, yn enwedig y rhai Blue Peter, oedd dewis Gwenni ac Aaron, y ddau newydd eu penodi i fod ar Gyngor Ysgol Gwaelod-y-garth.

# Oedfa Ddiolchgarwch Yr Ysgol Sul

Dyma nhw! Isod, mae cofnod o bawb ymddangosodd ar eich sgriniau yn ystod oedfa Ddiolchgarwch yr Ysgol Sul. Rhaid diolch i Heulwen (a'r gefnogaeth dechnegol, na chafodd ei enwi) am drefnu a llywio'r cyfan a dod â phawb ynghyd.



Heulwen



Ifan a Luned



Elis



Enfys



Mabon



Sara




Aaron



Olwen




Gruffydd



Alys




Gwenni



Awen.

Roedd Olwen Lloyd hyd yn oed wedi darparu "trêl" go arbennig i hysbysu'r byd am yr hyn oedd i ddod yng nghanol yr oedfa – sef hanes arch Noa a'r dilyw. Digon prin i unrhyw oedfa erioed ym Methlehem weld y math hwn o gyflwyniad cyn heddiw!



I mewn i'r arch â nhw!



Y dilyw yn cyrraedd



Hindda a'r golomen a'i deilen!

Ar ddiwedd y cynhyrchiad hwnnw, daeth wynebau'r cyfranwyr i'r golwg, fel y gwelwch isod:



(*chwith*) Olwen, Y Golygydd  
Owain a Medi (*dde*)



(*isod*) Glenys ac Anthony

**Diolch eto i bawb – yn  
arbennig i Heulwen am  
ei gwaith**



**Ewch i gael golwg eto ar y  
cyfan. Mae i'w gael ar  
'Youtube':**

[https://youtu.be/BA\\_eDVz\\_njzM](https://youtu.be/BA_eDVz_njzM).

Er nad oedd e wedi mwynhau'r iechyd gore ers peth amser daeth y newyddion fod Brian wedi'n gadael ni fel sioc i bawb. Mae'r gymuned leol wedi colli person arbennig, mor eang ei gyfraniad, mor deyrngar fel ffrind. Oherwydd ei dalent enfawr ym myd y campe y daeth Brian i sylw'r genedl gynta - tri chap dros dim rygbi Cymru, ma' pawb bron yn gytûn y dylsai fod wedi cael llawer mwy. Ond nid rygbi oedd ei unig gamp - fe gafodd ei ddewis hefyd dros dimoedd criced ac athletau ysgolion Cymru a dod o fewn trwch blewyn at gael ei gynnwys yn un o'r pedwar yn nhîm ras gyfnewid Cymru yn Chwaraeon y Gymanwlad.

Cafodd ei eni yn Lloeger - yn Weston Super Mare a'i godi yn Leeds - gan fod ei dad Idwal - oedd hefyd wedi ennill cap dros Gymru -wedi symud yno i chwarae "rugby league". Ond nôl i Langennech yn 11 oed, Ysgol Ramadeg Llanelli, Gradd mewn Peirianeg Sifil o Brifysgol Abertawe. Ond yna - ddiwedd y 1960'au, ar ôl i Bri gael swydd yn darlithio ym Mhontypridd, fe ac Enid yn symud i'r Creigiau a ninne yn y filltir sgwâr hon wedi bod mor ffodus eu bod nhw wedi dod, â'r ddau wedyn wedi gwneud cymert o gyfraniad i fywyd y fro dros gymaint o amser. Doedd bois ifanc Clwb Rygbi Pentyrch ddim yn gallu credu bod chwaraewr rhyngwladol nawr yn chwarae ac yn hyfforddi gyda nhw yn nhîm y pentre. Fe drawsnewidiodd e'r agwedd yn y clwb tuag at chwarae ac ymarfer. Roedd ei ddylanwad yn aruthrol.

Ac yna ei hiwmor mor amlwg mewn gwahanol gymdeithasau -Yn enwedig Côr Cantorion Creigiau, lle bu'n cyflwyno'r cyngherddde'n gyson am ddeugain mlynedd a mwy a Chlwb y Dwrllyn. Doedd dim unrhyw rифw yno na chyda'r côr yn gyflawn heb sgetsus Brian - cymert ohonyn nhw'n aros yn y cof - ond dwy yn arbennig falle - yr Adeiladwr Anffodus a'r anfarwol "preying mantis" gydag e ac Enid. Bydd y chwerthin yn aros gyda ni am amser hir. A thros y blynyddoedd diwetha, daeth ei ddawn fel arlunydd i'r amlwg - tirluniau i ddechre, ac yna portreadau o bobl amlwg yng Nghymru - cyhoeddodd gyfrol ohonynt gan godi £27,000 i gronfa "Cystic Fibrosis"

le - dyna Bri. Person talentog, annwyl, caredig. Bydd Carol a finne, fel llawer eraill, yn trysori'r atgofion am ei gyfeillgarwch e ac Enid dros gyment o flynyddoedd - am wylie hapus, llawn sbort a sbri, chwerthin, dadle a thynnu coes. Ffrind spisial - bydd bywyd yn rhyfedd heb ei gwmni



### **I gofio gyda diolch a chariad am Brian Davies**

Mis Medi, mis ymadael  
â miri'r haf, ond mae'r haul  
hyd yr ardd, ac eto'n drwch  
mae'r tân aur, mae'r tynerwch.

Am eiliad anweladwy  
mae'r wên dlos am aros mwy;  
ac yn nhrydar adar hwyr  
y nos hon, mae hen synnwyr:  
trech na hiraeth caeth yw cân  
y cof am arwr cyfan.

Enaid aur ei Enid oedd,  
enaid tad ei Kate ydoedd;  
ein cwmpawd, ein pencampwr,  
ein capten, a seren siŵr  
yr adlam a'r ochr-gamu  
a'r creu ar wib chwarae cry',  
a brenin hen gyfrinach  
gweld lled cae mewn bylchau bach.

Yna'n arwr ein horiel,  
ryw ffordd trodd yn Raphael,  
yn Dintoretto'r atic  
a'i sylw i liw y brwsh slic.

A heno, wrth gofio'r gŵr  
a'i ddoniau ymddiddanwr,  
cariad yw'n portreadau  
o'r arwr hwn. Mae'n parhau.

Haul a glaw, ym Meili Glas  
mae'i enaid, mae'i gymwynas  
yn byw o hyd, a lle bydd  
dwy galon cawn, 'da'i gilydd,  
eto gofio alaw'r gân,  
alaw bro, alaw Brian.

**Mererid Hopwood**

*Fel cyd-aelodau ym Methlehem, rydyn ni'n anfon ein cofion at Enid , a'i merch, Kate a'i theulu, yn eu profedigaeth. Bu angladd Brian ddydd Gwener, Hydref 16, yn amlogfa'r Ddraenen Wen, gyda'r gwasanaeth preifat yn cael ei ffrydio ar-lein.*



Mae'n rhaid i mi ofyn am eich maddeuant am ddau beth wrth sgrifennu'r ychydig eiriau yma. Un, o'n i ddim wedi bwriadu sôn gair am y feirws, a dau, o'n i ddim wedi bwriadu sôn gair am...ie, Aberdâr! Ond...wel, shwt alla'i weud ... Ma' cyd ddigwyddiadau'n bethau rhyfedd ond 'dyn nhw?

Fel hyn o'dd hi... Ro'n i newydd orffen darllen adroddiad am bwnc llosg diweddera'r feirws -sef-bod angen torri nôl ar oriau agor ein tafarndai er lles y gymdeithas ehangach, pan ddes i ar draws erthygl a gyhoeddwyd yn yr "Aberdare Leader" sbel bach yn ôl, erthygl o'dd yn cynnwys y frawddeg hon:

*"The sooner this pernicious habit is uprooted the better, and the removal of late '— —' will alleviate suffering and confer a special boon upon a great number of the community!"*

Wel, 'na chi 'weud! A beth o'dd y "pernicious habit"? Wel, ag ystyried bod dros 100 o dafarndai yng nghanol tre' Aberdâr er stalwm (ro'dd 6 yn amgylchynu fy hen gapel i Siloa! ) bydde fe'n rhwydd dyfalu mai oriau agor tafarndai sy' dan sylw, ond na, cri sy' yma nid i dorri nôl ar oriau yfed, ond ar oriau ...Siopa!

Ie! Siopa! Ac mae'n debyg bu 'na bregethu tanbaid yng nghapeli Cwm Cynon yn yr 80au yn gwrthwynebu "siopa hwyr" a'i ddylanwad drwg pell-gyrhaeddol ar y gymdeithas. Yr 80au, ond nid y 1980au, ond y 1880au!!!

Ie,140 o flynyddoedd yn ôl, ro'dd capelwyr y Cwm yn daer yn erbyn gormod o "retail therapy"! Be' nelen nhw o'r oriau agor nawr, dyn a wŷr?

Felly, beth o'dd capelwyr y Cwm yn gwneud gyda'u hamser os nad siopa? Wel, fel mewn sawl cwm a dyffryn ar hyd a lled y wlad roedd y capeli'n cynnig Darlithoedd a Chyngherddau, Dramâu a nosweithiau "Magic Lantern", ac un o'r nosweithiau mwya' poblogaidd yn "Sweet 'Berdâr" - y *Penny Readings*. Bydde noson *Penny Reading* yn gallu cynnwys bach o bopeth, canu, darllen o'r Beibl, canu'r chwistl dun, organ geg, ffidil neu biano-fforte, ac adrodd wrth gwrs, ac roedd 'na ddau grwt yn y cwm yn enwog am ei perfformiadau o'r Adroddiad Digri'. Tra bod un yn diffodd a chynneu'r gole bob dwy eiliad bydde'r llall yn cwpla'i adroddiad gyda'r llinelle anfarwol ...

*"The thunder roared, the lightning flashed, and killed a pig in Mountain Ash!"*

Ie! Tybed be' ddaeth o'r ddau yna? Ond os o'dd y *Penny Readings* yn ddigwyddiad cyffredin chlywes i erio'd am y digwyddiad nesa' ma, a gynhaliwyd yn Siloa, Aberdâr yn ystod blynyddoedd cynta'r ganrif ddiwetha', sef "Te Cyllell a Fforc yr Hen Lanciau!" Pwrpas y te? Cyfle i wŷr di briod y Capel arddangos eu doniau paratoi



bwyd, yn y gobaith o ddal sylw rai o'r merched di-briod mae'n siŵr. Byddai'r merched yn addurno'r byrddau a blodau, cyn i'r dynion ifanc yn eu crysau gorau a choleri 'starch' a'u ffedogau gwyn hir fynd ati i gyflwyno'r arlwy ro'n nhw wedi paratoi ar gyfer yr aelodau i gyd. Tybed sawl perthynas gafodd gyfle i flodeuo dros ddishgled yn y Festri?!

Ac i gloi - er ddim yn gloi iawn - 12 milltir yr awr a dweud y gwir - os na bu llwyddiant yn y Festri, yna, roedd cyfle arall wrth fynd ar y trip i Lan y Mor yn y Charabanc! Ie, cyfle arall i aelodau capeli'r cwm i gymdeithasu a dod i nabod ei gilydd yn well. Roedd 150 o

gapeli'n y Cwm, ac 11 o gwmnïau Charabanc, a phob Charabanc ag enw arbennig. Un o'r cwmnïau oedd Cwmni Fred Williams, a chredwch ne' beidio enw ei Djarabanc o'dd "Dyddiau Da!" Ie, plwyfol buon ni yn y cwm erio'd, ond 'na fe, fel wedodd y Pregethwr, sdim byd newydd dan yr haul !!!



Cwta ddeg wythnos sydd i fynd tan y Nadolig!

Tybed a fydd yr un bwrlwm ar brynu anrhegion Nadolig yn ein mysg eleni – go brin ddywedaf i?

Heb na sicrwydd ar siâp ein Gwyl na'n gallu fel teuluoedd i ddod at ein gilydd o amgylch y bwrdd i rannu'r danteithion cyfarwydd, beth fydd ein tynged tybed?

Rhoddwyd y cyfan mewn cyd-destun i mi pan dderbyniais becyn o wybodaeth oddi wrth Cymorth Cristnogol y dydd o'r blaen.

Fe wyddom i sicrwydd fod yr holl elusennau yr ydym wedi bod yn gysylltiedig a nhw yn ei chael yn anodd ryfeddol i weithredu yn ôl yr hyn a ddymument, a'r gostyngiad mewn incwm yn golygu bod yn rhaid iddynt dorri'r got yn ôl y brethyn mewn sawl cyfeiriad.

Ond, er gwaethaf y feirws a'r Clo, dyma Cymorth Cristnogol yn ein siarsio y gallwn ddewis yr anrheg perffaith i bawb, a, thrwy gyfrwng "catalog", yn ein hatgoffa y gall siopa Nadolig "newid bywydau"!

Ond, prysuraf i ddweud mai nid y catalog arferol o deganau, dillad, bwydydd ac yn y blaen sydd dan sylw, ond yn hytrach bethau cwbl ymarferol, a allant yn eu tro "newid bywydau".

🌿 Ydych chi wedi meddwl rhoi **cwch gwenyn [£60]** yn anrheg i rhywun y Nadolig yma? Mae cadw gwenyn yn fodd o greu bywoliaeth a chreu incwm i rieni yn Kenya sydd am anfon eu plant i'r ysgol.

🌿 Neu beth am **feddyginiaeth wrthfotig [£9]**, a allai arbed bywyd plant bregus yn y gwrsylloedd ffoaduriaid, neu **becyn argyfwng [£25]** i'r teuluoedd ym Mangladesh sydd wedi colli popeth yn dilyn daeargryn a llifogydd.

🌿 Am **£30** gellid sicrhau cyflenwad o **ddŵr glân** i deulu a ddiodefodd o'r herwydd, ac am **£28** gellid darparu **cysgod dros dro** i deulu wrth iddynt baratoi at aeaf oer a haf crasboeth tan y bydd yn saff iddynt ddychwelyd i'w cartrefi.

🌿 Byddai **£93** yn galluogi creu **gofod plant-gyfeillgar** mewn gwrsyll ffoaduriaid, a fyddai'n fodd iddynt, trwy ddysgu a chwarae, oresgyn yr ofn, y galar a'r trawma sydd arnynt, a'u paratoi â gobaith ar gyfer eu dyfodol.

🌿 Yn Kenya byddai swm o **£15** yn gymorth i **gynnal plentyn amddifad neu fregus mewn addysg**.

🌿 Ac os oes arnoch chwant ffermio, ond heb y gofod yn eich gardd gefn, yna fe allech brynu **gafr** am **£35** i deulu ym Murundi, neu **fuwch** am **£187** i deulu ym Mangladesh, a fyddai yn eu tro yn eu galluogi i gael llaeth ffres i'w yfed, a menyn a chaws i'w werthu. Byddai hyd yn oed y tail o'r anifeiliaid yn sicrhau gwrtai i'r cnydau, gan wella eu hansawdd o flwyddyn i flwyddyn.

Mae 'na fwy o awgrymiadau yn y catalog, (ac ar y wefan berthnasol <https://charity-gifts.christianaid.org.uk>) ond dyna gip i chi sut y byddai'n rhoddion ni yn gallu "newid bywydau" pobl na ddown ni byth i'w hadnabod wrth eu henwau cyntaf.

Dwi'n meddwl y byddaf, wedi'r cwbl, yn mwynhau siopa Nadolig eleni! Fyddwch chi?

**Cofiwch hefyd am ein helusen leol am eleni:**

## Canolfan Y Drindod, ger Heol Casnewydd

Cyfrannwch drwy law Trysorydd Bethlehem neu drwy wefan y ganolfan:  
<http://www.trinitycentre.wales/>




Cyfraniadau at Fanc Bwyd Caerdydd:

<https://cardiff.foodbank.org.uk/>



Roeddwn i yn y pulpud yn y bore ac yn y gynulleidfa y pawns. 2013 oedd y flwyddyn, a minnau'n cofnodi - Bethlehem y bore; Hermon Treorci pawns. Bethlehem y bore, Yr Hendy pawns. Bethlehem y bore, Jewin pawns .... Ac ar Chwefror 24ain – Bethlehem y bore, Wembley pawns [beth ddwedai'r Tadau?]. Yn fan'no hefyd fe gafwyd ysbrydoliaeth! Abertawe yn ennill Fyddwch chi oedd ym Methlehem ddim yn cofio mai thema'r oedfa y bore hwnnw oedd 'temtasiwn'. Hebraeid 2:18 oedd y testun. Chwiliwch am yr adnod. A themtiwyd y pregethwr. Yr Athro Derec Llwyd Morgan oedd y temtiwr. Fel Cadeirydd Pwyllgor Buddsoddiadau Ymddiriedolaeth Pantyfedwen cawsai ddau docyn yn rhodd. Gan mod innau ar bwyllgor Ceisiadau yr Ymddiriedolaeth fe gefais gynnig tocyn ganddo.



Os nad ydech chi yn cofio'r bregeth, dwi'n cofio'n iawn mai 5-0 oedd y sgôr yn Wembley ac mai Abertawe enillodd Gwpan y Gynghrair. Yn nhîm Abertawe y pawns hwnnw roedd 'na Almaenwr yn y gôl, tri Sbaenwr, tri Sais, dau Gymro (Ashley Williams a Ben Davies), un o Dde Corea ac un o'r Iseldiroedd. A dyna'r tro diwethaf un i mi fod yn Wembley, yr hen Wembley bellach, a'i dyrrau gwyn.

Dwi'n cofio'r tro cyntaf y bûm i yno, ar Fai 31 1977. Euthum yno i ymarfer sylwebu ar bêl droed rai misoedd cyn bwrw iddi wedi i Radio Cymru gael ei lawnsio. Cymru yn erbyn Lloegr. Doedd Cymru ddim wedi ennill yn Lloegr ers pedwar deg dau o flynyddoedd; erioed wedi ennill yn Wembley. Fel hyn mae Dai Davies, golwr Cymru [ac mae ein gweddïau gyda Dai a'i deulu ag yntau'n wael mewn Cartre Nyrsio yn Wrecsam ar hyn o bryd] – “Dyma'r noson pryd y gweles yr arwydd mwya' pendant o'r ymdeimlad o Gymreictod oedd wedi ei wreiddio yn y tîm ers dyfodiad Mike Smith [rheolwr y tîm]. Cyn y chwarae daeth y chwaraewyr i gyd i benderfyniad ei bod hi'n hen bryd clywed anthem 'Hen Wlad Fy Nhadau' yn cael ei chwarae ar ôl 'God Save The Queen'. Gofynnwyd i Mike Smith drefnu hynny ond gwrthodwyd ei gais. Allan ar y cae felly, ac ar ôl i anthem Lloegr gael ei chwarae â'r timau yn sefyll yn syth mewn dwy res, gwaeddodd Terry Yorath [capten Cymru] ar y gweddill ohonom '*Stay where you are!*'. Protest dawel oedd hi, protest fer, ond fe wnaethpwyd y pwynt.”

Roedd Ysgrifennydd Cymdeithas Bêl-droed Lloegr yn gynddeiriog – am fod y Cymry wedi creu embaras o flaen aelodau'r teulu brenhinol. A doedd yr embaras ddim ar ben. Cymru enillodd y gêm o gôl i ddim.

Ar Fai 17, 1980 roeddwn i'n sylwebu i Radio Cymru o'r Cae Ras yn Wrecsam ac yn llygad-dyst i fwy o embaras i'n cymdogion a Chymru yn curo Lloegr, eto, o 4-1.

Gêm ddim-byd oedd yr ymweliad â Wembley rai dyddiau yn ôl; gêm ddi-bwynt mewn mwy nag un ystyr.

Gêm ddi-sgôr oedd yr un chwaraewyd yn Wembley ym Mai 1981 a bu ond y dim i mi gyrraedd yn hwyr. Wedi darlledu adroddiad i'r Post Prynhawn o'r Tŷ Darlledu [BH] yn Oxford Street, galw tacsï ac anelu am Wembley. Noson waith oedd hi a'r gyrrwr-tacsï yn gwneud ei orau i osgoi'r traffig trwm. Ond o fewn milltir neu fwy i'r stadiwm doedd dim yn symud. Doedd dim amdani ond rhedeg drwy'r dorf; rhedeg i fyny sawl lefel o risiau a chyrraedd y pwynt sylwebu â ngwynt yn fy nwrn lai na phum munud cyn dechrau'r gêm. Roedd fy nghyd-sylwebydd, Stewart Griffiths, wedi dod o gyfeiriad arall a'i wyneb fel y galchen yn pryderu amdanaf. A'r peth cyntaf i'w wneud oedd sefyll i'r anthemau! Diolch, erbyn hynny, fod 'na ddwy. “Croeso i Wembley ...”



**Cymru 4 v Lloegr 1, Wrecsam, Mai 1980**

## Pytiau o'r Cwrdd Diaconiaid – 12fed o Hydref 2020

Cyfarfu'r Diaconiaid ar Zoom ar nos Lun y 12fed o Hydref 2020. (gweler ar y dde). Cafwyd trafodaeth ar y materion canlynol:-

**Y drefn addoli ers mis Medi 2020** – cytunwyd bod y drefn bresennol yn dderbyniol o fewn y cyfyngiadau sy'n bodoli, ac y byddid yn parhau i'r dyfodol. 'Roedd rhwng 30 a 40 wedi bod yn mynychu'r oedfaon a gynhaliwyd yn ystod mis Medi.

Nodwyd bod yr oedfa ar Sul y 4ydd o Hydref, pan ofynnwyd i bawb ddod a bara a diod ar gyfer cyd-gymuno, hefyd wedi bod yn fendithiol. Gwerthfawrogir recordio'r oedfaon ar gyfer eu darlledu i bawb nad sy'n gallu mynychu'r capel. Er hwyluso mynediad i'r galeri mae ystyriaethau ar droed i ddarparu canllaw ychwanegol ar y grisiau sy'n arwain o'r cyntedd. Mynegwyd diolch i'r Ysgol Sul a phawb arall a fu'n ymwneud a'r Oedfa Ddiolchgarwch a ddarlledwyd ar Sul yr 11eg o Hydref.

Nodwyd fod llyfarydd ar ran Llywodraeth Cymru yn ystyried nad ydi cyd-lefaru gweddïau "yn dawel" yn ystod oedfa yn groes i'w rheolau. Yn ogystal nodwyd bod Llywodraeth Cymru:

- "...yn credu y bydd gan y sawl sy'n arwain yr addoliad esgus rhesymol dros beidio gwisgo gorchudd wyneb os na allent wneud eu gwaith yn effeithiol tra'n gwisgo un. Ond rhaid iddynt gymryd camau digonol eraill fel cadw dros 2 fetr oddi wrth eraill a gwisgo feisor."
- Fe ganiateir defnyddio offerynnau megis piano, offerynnau electronig neu recordiadau mewn oedfa, hefyd mae'r canllawiau yn "...argymhell na ddylai'r gynulleidfa ganu...Gall unawdydd ganu tu ôl i sgrin briodol os yw hynny yn angenrheidiol i'r gwasanaeth."

Mae'n angenrheidiol cynnal asesiad risg ychwanegol yng nghyd-destun yr uchod.

**Oedfaon mis Hydref 2020 hyd at ddiwedd Rhagfyr 2020** – Mae'r Suliau yn llawn hyd at y 13eg o Ragfyr ar hyn o bryd (dau Sul cyntaf Ionawr 2021 hefyd i'w llenwi), diolch i Delyth Evans (Y Barri) am ei gwaith fel Ysgrifennydd y Cyhoeddiadau ar ein rhan. Yn amlwg nid ydym yn rhagweld y byddwn yn gallu cynnal y bwrlwm arferol o weithgaredd yn y capel dros gyfnod y Nadolig, ond mae cynlluniau ar waith i geisio cyflwyno bendith y Nadolig trwy ddulliau amgen – mwy am hynny yn rhifyn nesaf y Gair bach!

**Elusennau** – Penderfynwyd anfon **£1000 i Fanc Bwyd Caerdydd** i'w cynorthwyo i ddarparu cymorth i'r teuluoedd sydd ar eu galw. Ar gais yr elusen, byddem yn barod i ryddhau'r swm o arian sydd eisoes wedi ei godi gennym er budd Canolfan y Drindod, Caerdydd.

Mae'r elusen sy'n hyrwyddo "**Te yn y Tabernacl**" ar bnawn Sul wedi rhoi gwybod nad ydynt yn disgwyl i'r eglwysi sy'n paratoi ar eu cyfer ail-afael yn eu dyletswyddau ar hyn o bryd. Mae'n fwriad holi'r teuluoedd sydd wedi cefnogi **Plan International** tros y blynyddoedd am eu dyhead i barhau â'r fenter neu cyfeirio'r gweithgaredd i elusen arall.

### **Adeiladau a Chyfarpar**

- Mae camera newydd wedi ei brynu ar gyfer recordio'r oedfaon (ar gyfer eu darlledu) o Sul i Sul.
- Mae boeler nwy newydd wedi ei osod yn y gegin ar gyfer cynhesu'r Ffestri.
- Amharwyd ar y gwaith ar yr adeilad oedd yn cael ei wneud ar ddechrau'r flwyddyn, ac felly erys heb ei gwblhau. Diolch i Wyn Jones, sydd a gofal yr adeilad a'r cyfarpar am ei ddycnwch ar ein rhan.

**Cyfrifon 2019/20** - mae Cyfrifon 2019/20 yn cael eu paratoi ac angen eu gwirio. Mae cyfrifon y blynyddoedd blaenorol ar wefan y capel ( [www.bethlehem.cymru](http://www.bethlehem.cymru) ) yn ymestyn yn ôl i 1998/99 (o dan "Gwybodaeth i'r Aelodau"). Diolch i Peredur Evans, ein Trysorydd, ac i Ian Hughes, sy'n ei gynorthwyo, am ofalu am ochr ariannol y capel.

**Y Ddiaconiaeth** – Wedi gwasanaeth o 30 mlynedd cyflwynodd Dylan John ei ymddiswyddiad o'i swyddogaeth fel Diacon. Yn yr un modd dderbyniwyd ymddiswyddiad y Parchedig Allan Pickard o'i swyddogaeth fel Diacon Anrhydeddus. Mynegwyd diolch i'r ddau ohonynt am eu cyfraniad i waith yr eglwys dros y blynyddoedd.

**Dementia** – Cyfeiriwyd at bapur y mae Emlyn Davies, Cadeirydd Cwrdd Chwarter Dwyrain Morgannwg, wedi ei baratoi (a gyflwynir i'r Cwrdd Chwarter yn y cyfarfod a gynhelir ar y 14eg o Hydref) yn awgrymu cyfeiriad i'r eglwysi yn eu hymwneud a'r cyflwr hwn. Ar hyn o bryd ei fwriad oedd "*deffro ymwybyddiaeth o'r cyflwr ymhlith aelodau ein heglwysi*", gan argymhell, fel cam cyntaf, "*y dylai o leiaf un person o bob eglwys ddilyn cwrs syml...i dod yn 'Gyfaill Dementia'*".

Fel ail ran yr ymgyrch byddid yn "*annog eglwysi i groesawu rhai sy'n byw gyda dementia, ynghyd â'u teuluoedd a'u gofaluwr i'w plith*" a "*threfnu rota o warchodwyr i roi ysbaid i'r teulu / gofaluwr am awr neu ddwy bob hyn a hyn.*"

Byddai trydydd rhan yr ymgyrch "*yn cynnig arweiniad ysbrydol, gan gynnwys cynhyrchu patrymau neu fodolau o oedfaon addas i rai sy'n byw gyda dementia.*"



*Rhodri-Gwynn Jones (Ysgrifennydd)*

Beth tybed fydd hanes peldroedwyr Cymru yn ystod pencampwriaeth Ewrop ym mis Mehefin 2021? Yn ddi-os cafodd penodiad Ryan Giggs groeso gan y mwyafrif llethol o'r cefnogwyr ffyddlon ac os bydd ein hoff chwaraewyr yn profi ysbrydoliaeth o'r radd flaenaf pwy a wŷyr?

Anelu at bresenoldeb Cymru yn yr Ariannin ar gyfer pencampwriaeth y BYD a wnaeth gwyr y cryse ysgarlad nôl ym 1977! Eisoes roedd dewisiade Mike Smith, y rheolwr, wedi trechu Tsiecoslofacia o dair gôl i ddim yn Wrecsam. Y gwrthwynebwyr nesa oedd cynrychiolwyr yr Alban oedd wedi colli o ddwy i ddim yn Prague.

A gêm gartre i Gymru oedd hon. Ie, ar bapur, ond nid felly y bu. Y bwriad gwreiddiol oedd cynnal y gem ar Barc Ninian ond yn ystod y flwyddyn flaenorol profwyd ymddygiad annerbyniol lwywr gan gefnogwyr afreolus Cymru yn ystod y gem yn erbyn Iwgoslafia. Wiw cynnig y cyfle i ail adrodd ymddygiad mor wallgo!

Beth felly am gynnal y gem yn Wrecsam yn dilyn y llwyddiant yn erbyn Tsiecoslofacia yno? Wel, ie, wrth gwrs, dyna oedd y dewis amlwg. Ond nid felly a fu. Penderfynodd swyddogion/pwyllgorwyr 'Cymdeithas Bêl-droed Cymru' nad oedd digon o safleoedd ar y Cae Ras i fedru wneud cyfiawnder a'r miloedd lawer o gefnogwyr pybyr a fydde am fynychu'r achlysur. Beth felly oedd yr ateb doeth?

Y penderfyniad oedd gofyn caniatâd i lwyfannu'r achlysur ar faes clwb Lerpwl yn Anfield. Cam a fyddai'n gwarantu miloedd lawer mwy o arian i goffre'r gymdeithas. Felly roedd Cymru wedi penderfynu cynnal eu gêm gartre yn Lloegr! Gwireddwyd dymuniad swyddogion Cymdeithas Cymru pan werthwyd pob tocyn ymlaen llaw. Manteisiodd cefnogwyr y ddwy wlad ar y cyfle i fod yn llygad-dystion i'r wledd arfaethedig. Doedd Lerpwl ddim yn rhy bell i gefnogwyr Cymru a llwyddwyd i werthu mwy o docynne i gefnogwyr yr Alban, y 'Fyddin Tartan'.

Felly ymlaen at yr achlysur. Hanner cyntaf cystadleuol ond di-sgôr. Yna ar ôl 78 munud gwelwyd taflriad hir o'r ystlys gan Asa Hartford i flwch Cymru. Cododd David Jones a Joe Jordan i'w chyfeiriad ac yn sydyn clywyd chwiban y dyfarnwr Robert Wartz gyda'r Ffrancwr yn penderfynu fod Jones wedi llawio'r bel. Cic o'r smotyn i'r Albanwyr felly. "Na" medde pob Cymro. "Jordan a lawiodd y bel nid Jones!!" Na, na, na nid Jones. Jordan!! FE a wnaeth!" Ond glynodd Wartz at ei benderfyniad gwreiddiol. Llwyddodd Don Masson i guro Dai Davies gyda'i gic o'r smotyn ac roedd yr Alban ar y blaen gydag ychydig funude'n weddill! Ofer fu protestiade pob Cymro ac nid oedd yn gysur fod pob llun a ffilm o'r digwyddiad ynglŷn a'r llawio'n profi fod y dyfarnwr wedi gwneud yffach o gamgymeriad! A dyw Jordan ei hun byth wedi cyfadde. Ddwy funud o'r diwedd fe ychwanegodd Kenny Dagleish ail gôl yr ymwelwyr llwyddiannus ac roedd Cymru mas o'r ras.

"Ifans ma' enw Dagleish 'da ti ar y pennawd a dim ond nawr rwy't ti'n cyfeirio ato am y tro cynta! Dere mla'n!"

O ie. Os ydych yn gweithio ar unrhyw achlysur doeth diogelu eich bod yno mewn digon o bryd. Dyna a ddigwyddodd yn Anfield y diwrnod hwnnw. Cyrraedd mewn da bryd a manteisio ar y cyfle i anturio rhywfaint. Lawr i gyfeiriad yr ystafelloedd gwisgo. Camu'n ara deg i gyfeiriad allanfa'r chwaraewyr. Camu o dan yr arwydd bygythiol bron "This is Anfield". Mas i'r cae ei hunan a hynny yng nghwmni fy nghyd-weithiwr hynaws a gwybodus Howard Spriggs. Sylweddoli ein bod mewn cwmni dethol tu hwnt. Rhes o chwaraewyr yr Alban o'n blaen, hefyd un arall yn dynn y tu ôl inni.

Y grŵp o bedwar chwaraewyr y tu blaen inni yn stopo'n sydyn gyda'r grŵp y tu ôl inni yn anfwriadol camu i'n cefne ni'n dou gan ein gwthio ni mla'n. Am eiliad collais fy nghydbwysedd a phlygu'n mhen ymla'n. Am yr union un eiliad roedd braich un o'r tri oedd ar y blaen yn ei chodi a phwyntio'n ôl tuag at gornel o'r cae. Yn hollol anfwriadol cysylltodd y fraich yn ddigon diniwed a ngheg i a chlywais glec.

Teg nodi fan hyn fy mod wrthi'n derbyn triniaeth ddeintyddol ar y pryd. Roeddwn yn ymfalchïo yn y ffaith fod 'cap' wedi cael ei osod ar un o'r dannedd ucha. Ond dyna'r dant a ddoth yn rhydd a braich ddiniwed Kenny Dagleish oedd wedi cyffwrdd yn ben pin o dawel. Nid ei fai e o gwbl ond mae'n stori wir!

Kenny Dalglish. Nawr: Sir Kenneth Mathieson Dalglish ... 102 cap i'r Alban 30 gôl ... 502 gem i Lerpwl

*(Ac un cap answyddogol oddi ar ddannedd John Evans – Gol!)*



Os am destun rhyfedd i Gair Bach Bethlehem, dyma fe. Wedi cyfrif, mae gen i wyth craith ar fy nghorff; rhai yn dilyn anafiadau ar gaeau rygbi, ac eraill yn dilyn llawdriniaethau. Marc hanesyddol yw pob un ohonynt i mi, ac yn arwydd o wellhad.

Beth yw craith? Ai dim ond llinell yma ac acw yn amharu ar y croen? Neu rhywbeth arall?

Yn ystod yr wythnosau diweddar bu cryn lawer o ddathlu i gofio am ddiwedd yr Ail Ryfel Byd. Mae'r achosion am y dathlu yn graith anghofiadwy; y lladd, yr anafiadau corfforol a meddyliol, a'r dinistr difrifol ar draws y gwledydd.

Beth yw hyn i wneud a'm creithiau i? Wel, mae un ohonynt ar fy ngarddwrn dde yn ddigon amlwg, ac fe'i cefais oherwydd y dathlu, ond nid yn ddiweddar. Pan ddaeth y newyddion ar y 'wireless' fod y rhyfel ar ben, rhaid oedd rhedeg i roi gwybod i fy nhad. Roedd yr Efail ar lan y Camddwr Fach, yr afon yn llifo o flaen yr efail, a rhaid oedd ei chroesi. Nid oedd amser gan blentyn i groesi'r bont islawr, ond bracsan trwyddi. Yn anffodus fe gwympais ar ben potel oedd wedi torri a chael anaf cas. Diolch i'r drefn fod fy nhad yn meddu ar ddigon o wybodaeth i atal llawer o'r gwaedu ac hefyd i'r meddyg, Dr Williams o Dregaron, a ruthrodd yr wyth milltir i drin y clwyf. Dyna atgof gweladwy plentyn o ddiwedd rhyfel ac o'r dathlu.

Beth am greithiau llai personol? Yng ngwasanaeth y Cymun fore Sul, fe soniodd Delwyn Sion am yr Archesgob Makarios ac Ynys Cyprus. Yn ôl yn 1956 dyna lle'r oeddwn fod mynd iddi ar ran 'ein Llywodraeth' am fod gwrthdaro a rhyfela ar yr ynys. Wedi dioddef 7 brechiad angenrheidiol ac yna awr o 'rifle drill' i ddilyn oedd fod lleddfu'r boen, cael y newydd mewn diwrnod neu ddau fy mod yn mynd i Lundain yn lle Cyprus! Mae craith neu'r llinell derfyn yn parhau ar yr ynys yn Nicosia ac yn eu rhannu yn ddwy gyda gweddill waliau tai a'r hen ysbyty yn dyst o'r rhyfela. Craith ar y gorwel!

Mae hanes yn llawn creithiau o'r math; rhaniad rhwng du a gwyn; gwlad a gwlad a phobl a phobl. A oes goleuni ar y gorwel?

Yn y dyddiau gofidus presennol, lle mae creithiau newydd yn ymddangos yn ddyddiol, a theuluoedd yn colli anwyliaid, a chyfeillion yn colli cyfeillion, a oes gobaith?

A beth am y creithiau yn dilyn y Croeshoelio dros 2,000 o flynyddoedd yn ôl? Cofiw'n amdanynt o hyd er troad y blynyddoedd. Y gwahaniaeth mawr rhwng rhain ac eraill yw eu bod yn cynnig gobaith, ffydd a chariad, lle mae anobaith, casineb a gofid.

*"O! Cadw ni rhag dyfod oes  
Heb goron ddrain, na chur na chroes"*

*Rydyn ni'n anfon ein cofion at*  
***holl aelodau Bethlehem***

*sydd heb fod yn gallu mynychu oedfaon fel y buon nhw.*

*Gwyddom am rai sydd heb fod yn mwynhau'r iechyd arferol,  
tra bod eraill yn parchu'r cyfyngiadau sydd ar yr ardaloedd  
o'n cwmpas ar hyn o bryd.*

***Rydyn ni'n meddwl amdanoch chi – ac yn cofio atoch.***



Mae Yemen ar waelod penrhyn Arabia. Saudi Arabia ydi'r cymydog agosaf. Mae'r ddwy wlad wedi bod mewn rhyfel gwaedlyd yn ddiweddar. Brwydr sydd wedi cael fawr ddim o sylw, o leia yma yn Mhrydain, a hynny oherwydd bod teuluoedd brenhinol a llywodraethau Prydain a Saudi yn agos. Mae'r fasnach arfau ac olew rhwng y ddwy wlad yn ymddangos yn bwysicach na phryderon am hawliau dynol a chyhuddiadau o genocide.

Hyfforddi newyddiadurwyr a darlledwyr oedd y rheswm i mi ymweld â'r wlad lle ganwyd Brenhines Sheba, gan aros yn y brifddinas Sanna. Dinas lle mae 'sky scrapers' rhyfeddol i gyd wedi eu hadeiladu o fwd. Does na fawr dim glaw yn syrthio yno, a'r ychydig oedd yn disgyn, yn digwydd yn Aden, porthladd holl bwysig am flynyddoedd lawer i'r llynges Brydeinig, oedd yn galw yno ar y ffordd nôl a blaen o'r India a phob man "east of Suez".

Ar y noson cyn y cwrs cyntaf dyma awgrymu i'r cyfieithydd yr hoffwn ymweld â phencadlys y darlledwr cenedlaethol. Petai ond i weld yr adeilad a gwybod pa adnoddau oedd ar gael i'r cwrs. Dyma ddal tacsî.

Mae canran uchel o boblogaeth Yemen yn gaeth i 'gat', deilen sydd, o'i chnoi, yn danfon y defnyddiwr i ryw fath o bêr-lewyg lle mae'r llygaid ar agor ond does dim bywyd nac emosiwn yn agos iddyn nhw. Buan y deallais bod y gyrrwr tacsî wedi bod yn cnoi pelen o gat am rhan fwyaf o'r dydd. Fe aeth y car ar draws y ffordd, i fyny ar y palmant, nôl ar ochr anghywir y brif ffordd cyn i mi weiddi ar y gyrrwr i stopio.

Dyma gyrraedd y ganolfan ddarlledu ar droed a chanfod byddin o danciau a milwyr mewn lifrau yn llenwi'r maes parcio. Mae'n debyg bod pob gwrthryfel yn dechrau wedi i un ochr neu'r llall feddiannu tonfeddi y darlledwr lleol.

Cyrhaeddais y stiwdio newyddion mewn da bryd, yn ôl y cyfieithydd, i wyllo prif raglen newyddion y dydd yn cael ei ddarlledu am wyth or gloch. Roedd na gloc enfawr ar fur y stiwdio yn dangos bod hi'n ddeg munud i wyth. "Lle mae y criw" gofynnais, "does na neb yma ond ti a fi". Esboniais i'r cyfieithydd y byddai y cyflwynwyr a'r tîm cynhyrchu a'r criw newyddion, nôl adre, yn y stiwdio yn ymarfer o leia hanner awr cyn darlledu. Mi aeth hi'n wyth. Deg munud wedi wyth. Yn sydyn dyma gynnwrf wrth i tua ugain o unigolion foddî llawr y stiwdio. Pawb yn rhuthro nôl a blaen. Dyma gyfarfod y Golygydd a gofyn pam bod rhaglen oedd i fod i'w darlledu am wyth o leia ugain munud yn hwyr? "Prydeiniwr da chi ia?. Wel ia meddwn a fory fe fydda i'n pwysleisio pwysigrwydd amser i'ch cydweithwyr. Gyda hynny dyma lais yn galw am dawelwch. Roedd y rhaglen ar fin cychwyn. Gwelais un camera yn troi at y cloc ar y wal, ar Golygydd yn troi bysedd y cloc nol i wyth. "Ydach chi'n hapus nawr?" gofynnodd, wrth i mi weld mai y cloc oedd teitlau agoriadol y rhaglen, "Newyddion am Wyth" O ni yn dychmygu gwylwyr teledu Yemen yn cwyno bod yr oriawr am y fraich, byth a beunydd yn hwyr.



## Cofiwch...

***Rhwng nawr a'r Nadolig***

***Mae gennych chi gyd stori – rhannwch hi. Dewch! Dewch!***

***Beth am eich atgofion o Nadoligau a fu?***

***(Bydd 300 – 500 gair yn siŵr o lanw tudalen – efallai gyda llun!)***

***I gyflwyno pwt o atgof neu erthygl ar gyfer Gair bach Bethlehem, anfonwch air at Ifan Roberts:***

***[tycnau@aol.com](mailto:tycnau@aol.com) / 077 61 82 69 77***

***Dedlein: Tachwedd 11 – ond mae'n braf cael pethau cyn hynny!***

Wild  
Goose  
Publications



symbol o'r Ysbryd Glân.

Nid un awdur tro hyn ond casgliad o awduron o Gymuned Iona. Gan fod yn agos at 20 o lyfrau Cyhoeddiadau'r Wÿdd Wylt ar fy silffoedd mae'n amhosib peidio sôn amdany'n nhw. WGP yw cyhoeddwr Cymuned Iona, llyfrau, caneuon, cerddoriaeth, CDs a DVDs, ar gyfer addoli a defosiwn personol, yn adlewyrchu traddodiad Cristnogol Celtaidd Columba, un o saint y chweched ganrif. Yn y traddodiad Celtaidd, mae'r wÿdd wylt yn



Sefydlwyd y Gymuned ar Ynys Iona yn 1938 gan [George MacLeod \(1895-1991\)](#) – “one of the best known, most influential and unconventional Church of Scotland ministers of the 20th century.” Yn y gyfrol *Chasing the Wild Goose* gan un o gyn arweinwyr y Gymuned, dywed Ron Ferguson bod stori Cymuned Iona yn un o wyrthiau'r ugeinfed ganrif. Mae'r Gymuned yn apelio at bobl ar draws y byd – mae'n ecwmenaidd, yn gweithio dros heddwch a chyfiawnder

cymdeithasol, gyda phwyslais ar adeiladu cymunedau ac adnewyddu addoliad. Dyma'r elfennau sy'n dod i'r amlwg yn y llyfrau gwasanaeth, y litwrgïau, y deunydd defosiwn, y casgliadau o weddïau, barddoniaeth, straeon a chaneuon.

Y mae ôl meddwl ar bob un o'r cyfrolau sydd gen i. Ond yr un sy'n sefyll allan yw *Saying Goodbye*, sef casgliad o adnoddau ar gyfer angladdau. Mae'r awduron yn ymwybodol nad pobol ffydd yw pawb sy'n mynychu angladd. Mae yna eiriau sy'n adlewyrchu hynny. Mae yna ddychymyg a sensitifrwydd yn y casgliad. Dyma un enghraifft, trosiad o waith Ruth Burgess:

I ryddid y gwynt a'r heulwen, gadawn i ti fynd.

I ddawns y sêr a'r planedau, gadawn i ti fynd.

I anadl y gwynt ac i ddwylo Gwneuthurwr Sêr, gadawn i ti fynd.

Fe'th garwn, gwelwn d'eisiau, rydym am i ti fod yn hapus.

Dos yn ddiogel, dawnsia, rhed adre...

Ar ddechrau *Chasing the Wild Goose* ceir geiriau Sydney Carter, sy'n cyfleu antur y bywyd Cristnogol sy'n agored i ddylanwadau'r Ysbryd.

*Bird of Heaven*

*Catch the Bird of Heaven, lock him in a cage of gold*

*Look again tomorrow and he will be gone.*

*Ah the Bird of Heaven! Follow where the Bird has gone*

*If you want to find him, keep on travelling on.*

*Lock him in religion. Gold and frankincense and myrrh*

*Carry to his prison, but he will be gone.*

*Temple made of marble, beak and feather made of gold,*


*Bell and book and candle, but he will be gone.*

*Bell and book and candle cannot hold him any more*

*Still the Bird is flying, as he did before.*

*Ah the Bird of Heaven! Follow where the bird has gone*

*If you want to find him, keep on travelling on.*





Yn y rhifyn dwetha, o'dd Alun yn sôn am enwe capeli ac fe a'th hynny a fi 'n ôl ar aden y cof i'r ysgol yn dair ar ddeg mlwydd o'd. Nawr, o'n i wedi ffili'r scholarship, (lêt difelopyr)!!!! a wedi mynd i ysgol Sec. Mod. am ddwy flynedd, Ysgol Manselton, ac yn dwli bod 'na.

Ond un diwrnod, dyma Miss Evans y Brifathrawes, yn gweud wrtho i ei bod hi ishe gweld Mam. "Trwbwl" meddylies, ac ethoi ddim a'r neces rhag ofn! Yna, dyma'r cwestiwn yn dwad, "Chi 'di gweud 'tho'ch Mam?" "Nagw Miss Evans" "Reit te, llythyr."

Fel canlyniad dda'th Mam lawr, a'r ddwy ohonon ni'n sefyll yn 'stafell y Brifathrawes.

Medde hi, "Ma 'da fi newyddion da a drwg Mrs Roberts." O'n i fana'n cynnu!!!!

"Y da yw bod gwaith Hannah wedi bod yn dda iawn ers iddi ddod i'r ysgol, a dw i'n gwpod y galle hi elwa o Ysgol Ramadeg. Y newyddion drwg yw bo fi'n sôn am ysgol breifat".

"Reit", meddylies, "na ddiwedd ar y stori 'na!!!!" Ond na, o'n i'n rong, geso i fynd i Ysgol y Beibl College yn Blackpill ar Hewl y Mwmbwls.

Ysgol o'ddi a ddechreuwyd i blant cenhadon. Roedd y *Bible College* ei hunan 'mond lan yr hewl, yno yr hyfforddwyd y cenhadon, ac yna byddent yn mynd mas i'r maes cenhadol, boed yn Ne'r Amerig, Yr Affrig ne' Tsheina ymysg llefydd erill, a gatel eu plant yn yr ysgol.

"Day stiwdent" o'n i, ac er bo' fi 'di mynd 'no ar ben y'n hunan, ac yn napod neb, timles yn eitha cartrefol. Nawr pam? Wel o'n nghwmpas i o'dd "Blychau" T Rowland Huws, enwau capeli o'n i'n hen gyfarw'dd a nhw. Enw'n nosbarth i o'dd Seiloh, o'n i'n ca'l Mathemateg yn Bethel, Gwyddoniaeth yn Hermon a Sisneg yn Horeb. Enw'r prif adeilad o'dd El Shadai, sy'n golygu, os cofiaf, gerie 'lahwe', duw'r Hen Destament; "Ydwyf yr hyn ydwyf" yn Hebraeg.

Pan dda'th amser y 'GCE', o'dd gofyn i rieni dalu am bob arholiad, am bob pwnc, a galwyd fi i weld Dr. Priddy, y Prifathro, a medde fe, "Tell your parents not to waste money on your Biology exam because you won't pass. I see that your last mark was 10 percent, IMPROVING!!!!" Gobitho bod y sawl sy'n darllen hwn yn ca'l mwy o fudd o fynd i Hermon na geso i!!!!

Ma' lot o sôn nawr am y gair "Furlough". O'n i'n hen gyfarw'dd a'r gair ers y 50au, achos dyna o'dd yr enw ar wylie'r cenhadon. Byddent yn dod nôl ar furlough, a'r plant preswyl yn ca'l mynd 'da nhw am bythefnos o wylie. Yna, nôl i'r ysgol a ddim yn gweld eu rhieni am flynydde! .Un o'n ffrindie i o blith y "*Boarders*" o'dd Dorothy Palmer, ei rhieni hi yn Ne America, ac un diwrnod fe ddysges i englyn iddi hi sef "Y nos dywyll yn distewi" a.y.b, a hithe'n dysgu pennill Sbaeneg i fi am drên yn mynd lan yr Andes, wi'n ei gofio byth, ond sa i'n siŵr am y sillafu!!!

***"Erico nero sigaro***

***Erico nero caril***

***Que rapidos ruedan***

***El ruedan del caro***

***Que Andea del caro caril.*** [Os o's athro Sbaeneg yn taro llygaid ar hwn, cywired!!!!]

Nawrte, dw mynd i acor drws Carmel, dewch 'da fi. Hwnnw o'dd yr ystafell Gelf a Gwnio, a fanna, bob amser cino Dydd Gwener bydde'r "*Dorcas Society*", pan byddem yn gwnïo pethe i hala i'r gwahangleifion ac o'dd sawl *Singer Sewing Machine* yno.

Merched o'n ni i gyd, ond UN. A mwy na 'ny, tywysog o'dd e, sef un o deulu Ymherawdwr Ethiopia, (ne' Abyssinia fel o'dd e ar y pryd) sef Haile Selassie. Cofiaf ei ymweliad e a'r ysgol. Bu'n byw ym Mhenllergaer yn ystod yr ail ryfel byd pan alltudiwyd ef o'i wlad gan Mussolini. Daeth yma ar wahoddiad Rhys Howells, sylfaenydd ein hysgol, ac roedd e, y sylfaenydd, wedi pyrnu ystad Dillwyn Llywelyn ym Mhenllerga'r. O'dd y Llywelyns yma yn arloeswyr ym myd y camera, ac wedi sylfaenu Y Cambrian Pottery. Gwr o Frynaman o'dd Rhys Howells, aeth i'r Affrig yn genhadwr, a chwrdd a'r Ymerawdwr o'dd yn Gristion ac yn Fedyddiwr, dyna o'dd naws Ethiopia - y ffydd fedyddiedig yn gryf, ac wrth gwrs, y BMS, Cymdeithas Genhadol y Bedyddwyr o'dd tu ôl i'n hysgol.

Medde'r tywysog wrtho i un diwrnod—(fi'n ffili'n lân a chofio'i enw fe) *"Hannah, if you went to Addis Ababa, our capital, the pavement would be lined with these machines, and they repair things for you there and then"*.

Peth arall wetws e o'dd taw enw 'i deulu fe o'dd y *'Solomonic Dynasty'*, achos bod llinell yr Ymerawdwr yn ddi-dor ers y Brenin Solomon a Sheba. Wel!! Pythefnos yn ôl o'n i'n itrech ar BBC 4 *"Pole to Pole"*, Michael Palin, a na le o'dd e yn Addis Ababa yn ca'l ei drwser wedi cwero gyda *machine Singer* ar y pafin!!! Hefyd, cyfeiriodd e at Heile Salasse, a gweud taw fe o'dd yr Ymerawdwr ola, a'i linach yn mynd nôl yn ddi-dor at Solomon!!!!!! Cylch cyfan!!

Pan o'n i'n gwitho'n y BBC, o'n i'n siarad a Jennie Eirian yn y clwb un amser cino. O'dd hi 'di clywed bo fi 'di bod yn Ysgol Y Beibl College, ac ishe i fi sgwennu pwt bach i'r Faner. O K dyma fi 'n sôn am Y Blychau oedd yno a barodd i fi fod yn gartrefol. Os do fe!!! Geso i'r stŵr ryfedda'da hi, a gweud bo fi'n cellwair, a bod yr erthygl na DDIM yn mynd i'r Faner!! A finne'n gweud y gwir bob gair.

Ie, Seion, Salem, Soar a Bethlehem, lleoedd Israel a chapeli Cymru. Geso i'n nghodi yng nghapel Caersalem Newydd Trebo'th ger Treforus, a dyma gerdd o atgof am y capel hwnnw, y blwch ar y bryn, un o'r casgliad o gerddi enillodd y gadair i fi yn Nhregaron yn 2018.

## LAW YN LLAW

A'r Sul wedi agor y caead,  
mynd yn llaw nhad  
i'r blwch ar y bryn  
a'r bore'n sownd yn y Saboth.  
Mae "Duw cariad yw "  
ond yn bum mlwydd oed,  
a'r adnod yn oedi.  
Tri gair  
yn gawl ar y galeri,  
a'r dagrau yn diwel.

Heddi,  
a'r gafael wedi'i ollwng,  
y llaw wedi llacio,  
a'r blwch ar y bryn yn bellter,  
mae bysedd adnod  
wedi'i angori'n y cof.



MR. AND MRS. HOWELLS WITH THE EMPEROR OF ETHIOPIA  
*Behind are Samuel Howells, Asrate Kassa and  
Abye Abebe.*

## ODLAU'R GARTH

Bu farw'r bardd Gwyddelig, Derek Mahon, yn ddiweddar ac roedd ei gerdd, *'Everything is Going to be All Right,'* yn gysur i lawer yn ystod y cyfnod clo, yn enwedig yn Iwerddon. Dyma addasiad ohoni:

Sut mae modd peidio sirioli wrth syllu  
ar gymylau'n dianc tu hwnt i'r ffenest ddormer  
a llanw uchel yn adlais ar y nenfwd?  
Bydd pobol yn marw, pobol yn marw  
ond does dim angen ymhelaethu.  
Llifa'r geiriau o'm llaw heb eu gwahodd  
a'r ffynhonnell ddirgel yw'r galon yn gwylio.  
Fe gwyd yr haul er gwaetha popeth  
a'r dinasoedd pell sy'n brydferth a disglair.  
Gorweddaf fan hyn yn haelioni'r heulwen,  
yn gwylio'r wawr yn torri, y cymylau'n hedfan.  
Fe fydd popeth yn iawn.

*Martin Huws*